



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Pencae  
Highfields  
Gillian Road  
Llandaf  
Caerdydd  
CF5 2QA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Pencae yn Llandaf yn awdurdod lleol Dinas Caerdydd gyda'r dalgylch yn gwasanaethu disgyblion o ardal orllewinol y brif ddinas.

Ar hyn o bryd, mae 208 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6. Fe'u rhennir yn 7 dosbarth o'r un oedran. Cyflogir 8 o athrawon amser llawn gan gynnwys y pennaeth a 2 athrawes ran amser. Nid oes gan yr ysgol ddarpariaeth meithrin.

Mae 2.5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae gan 11.5% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw 16% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, ac mae 2% o gefndir lleiafrif ethnig. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Medi 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pencae yn 2016-2017 yw £4,110. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Dinas Caerdydd yw £6,215 a'r lleiafswm yw £3,046. Mae Ysgol Pencae yn safle 28 o'r 97 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Rhagorol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- yr ysgol yn cynllunio ystod ardderchog o brofiadau dysgu arloesol sy'n galluogi athrawon i fentro'n greadigol i gyflwyno gweithgareddau cyffrous er mwyn ysbrydoli a thanio chwilfrydedd disgyblion
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o'u manau cychwyn
- gan bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol fedrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn ac maent yn eu caffael yn llwyddiannus iawn er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a chydwybodol
- gan lawer fedrau meddwl arbennig sy'n eu galluogi i gynllunio, monitro a gwerthuso ymchwiliadau gwyddonol i safon uchel iawn
- bron pob disgybl yn dangos awch a chwyrndra ardderchog tuag at ddysgu trwy wneud cyfraniad gwerthfawr i gynnwys eu gwersi ac ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau allgyrsiol
- y cyngor ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr i werthuso a monitro cynnydd blaenoriaethau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol
- trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf yn cydweithio â'u gilydd yn dda ac yn dangos parch, gofal a phryder am eraill
- presenoldeb bron pob disgybl yn rhagorol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- yr ysgol yn cael ei rheoli gan bennaeth profiadol ac effeithiol sy'n gweithredu'n gyson uwchlaw'r disgwyliadau er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol eithriadol i'r ysgol
- gweledigaeth yr ysgol yn glir iawn ac yn seiliedig ar ddarparu profiadau addysgol cofiadwy i'r disgyblion
- cyfrifoldebau'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi'u diffinio'n glir iawn ac maent wedi sefydlu diwylliant trwyadl, gonest a blaengar er mwyn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses o farnu gwaith yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant
- y cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol iawn sy'n arwain at welliant parhaus mewn safonau llythrennedd, gwyddoniaeth a lles disgyblion yn ogystal â sicrhau safonau gwyb ymysg disgyblion mwy abl a thalentog
- y corff llywodraethol yn wybodus tu hwnt am berfformiad yr ysgol, yn gefnogol iawn ac yn defnyddio arbenigedd a chryfderau unigolion yn effeithiol er mwyn cyfrannu'n sylweddol at lunio cyfeiriad strategol yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant

- y bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn eithriadol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddeilliannau uchel a lles rhan fwyaf y disgyblion
- ymweliadau disgyblion â'r gymuned yn ehangu eu profiadau yn sylweddol

## Argymhellion

- A1 Gwella gallu ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i gymhwyso eu medrau rhifedd yn gadarn ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau bod gweithgareddau awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau disgyblion yn gynyddol trwy atgyfnerthu gwaith ffocws sy'n digwydd yn y dosbarth
- A3 Gwella adborth ysgrifenedig ychydig o athrawon fel bod disgyblion yn gwybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn datblygu eu medrau ymhellach

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

### Safonau: Da

Mae gan bron pob un disgybl ar draws yr ysgol fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh cadarn. Maent yn caffael y medrau hyn yn llwyddiannus ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a chydwybodol sy'n manteisio'n llawn ar brofiadau a gweithgareddau cwricwlwm byrlymus. Yn gyffredinol, mae llawer yn dechrau'r ysgol gyda medrau sydd yn llawer uwch na'r cyfartaledd ac mae'r rhan fwyaf yn parhau i wneud cynnydd cyson o'u manau cychwyn. Mae gan lawer fedrau meddwl arbennig sy'n eu galluogi i gynllunio, monitro a gwerthuso ymchwiliadau gwyddonol i safon uchel iawn. Mae hyn yn gryfder nodedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dwyn gwaith blaenorol i gof yn hyderus. Maent yn trafod eu gwaith i safon uchel ac yn siarad yn huawdl gyda'u cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Defnyddiant eirfa estynedig ac ymadroddion priodol wrth gyfleu gwybodaeth, datblygu ac esbonio'u syniadau i gynulleidfaoedd amrywiol, er enghraifft wrth esbonio pwerau cudd eu hoff archarwyr.

Mae llawer o'r disgyblion yn parhau i wneud cynnydd da yn eu medrau llafar wrth iddynt symud drwy ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llawer o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos ymwybyddiaeth fedrus o ddilyniant a chynnydd mewn ystod o gyd-destunau yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn ystyried yn ofalus sut a phryd i ymateb i eraill, ac yn cyflwyno dadleuon a syniadau clir wrth gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau. Mae medrau trawsieithu'r rhan fwyaf yn dda. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf galluog yn datblygu'n ieithwyr huawdl sydd yn gwneud cysylltiadau buddiol rhwng ieithoedd gwahanol er mwyn datblygu medrau llafar cadarn mewn Ffrangeg a Mandarin yn ogystal â Chymraeg a Saesneg.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan lawer o disgyblion ddealltwriaeth dda o arddulliau ysgrifennu gwahanol. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig o waith yn annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o eirfa gyfoethog ac atalnodi yn gywir. Maent yn ymgolli'n llwyr yn eu gwaith ysgrifennu, er enghraifft wrth greu disgrifiadau creadigol am rinweddau môr ladron dychmygol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bryd i ddefnyddio ystod eang o arddulliau ysgrifennu. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gallu i gymhwysu'u medrau llythrennedd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o gynulleidfa ac yn defnyddio amrywiaeth o eirfa ddychmygus er mwyn hudo'r darlennydd. Mae safon gwaith ysgrifennu creadigol llawer o'r disgyblion mwyaf abl yn ardderchog.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn mwynhau trin llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr brwd gyda mynegiant esmwyth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn wybodus iawn wrth drafod eu hoff awduron, hoff llyfrau a chymeriadau. Mae llawer yn defnyddio ystod dda o uwch

fedrau darllen yn llwyddiannus i ddarganfod ffeithiau, er enghraifft wrth ymchwilio i ryfeddodau'r byd, casglu ffeithiau am anifeiliaid sy'n byw mewn amgylcheddau eithafol neu wrth gyflwyno gwybodaeth am fywyd glöwr neu blentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gweithgareddau mathemateg. Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn siarad am eu gwaith drwy ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd yn briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi eu canlyniadau mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml. Maent yn datblygu dealltwriaeth briodol o bwysau ac yn cychwyn defnyddio mesurau gram a chilogram yn gywir wrth drefnu eitemau o'r ysgafnaf i'r trymaf. Mae gan lawer o'r disgyblion hŷn ddealltwriaeth dda o werth lle ac maent yn defnyddio ffeithiau rhif hyd at 100 wrth gyfrifo.

Mae cyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda. Mae llawer yn defnyddio ystod o fedrau trin data yn effeithiol, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth o siartiau tali, graffiau bar a thablau. Maent yn dehongli a chyflwyno gwybodaeth yn ddeallus gan adnabod patrymau mewn data er mwyn dod i gasgliadau synhwyrol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau datrys problemau a meddwl yn effeithiol wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol mewn gwersi mathemateg er enghraifft wrth benderfynu pa gwmni cyflenwi ynni fydd yn cynnig y gwerth gorau am arian ar gyfer gwersyll Llangrannog. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cadarn ar draws y cwricwlwm.

Mae safon medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o'r angen i fod yn ofalus ac i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos dilyniant a pharhad cadarn mewn gweithgareddau iaith, creu lluniau, rheoli tegau, trin data ac wrth ddatrys problemau. Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth arbed eu gwaith mewn ffeiliau priodol a gallant gofnodi data yn gywir a chreu cwestiynau dilynol sydd yn arwain at y cam nesaf mewn gwaith ymchwil syml.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn effeithiol er mwyn cyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth. Maent yn hyddysg wrth ymchwilio ar y we ac yn ystyried hawlfraint yn ddeallus pan fyddant yn ategu lluniau i'w gwaith ysgrifennu, er enghraifft wrth greu taflenni gwybodaeth ar Wal Fawr Tseina. Mae'r rhan fwyaf yn cynhyrchu cronfeydd data manwl iawn i gefnogi gwaith ymchwil mewn gwyddoniaeth, er enghraifft er mwyn cofnodi i ba raddau mae graffit pensil yn effeithio ar ba mor llachar mae bwlb yn disgleirio. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o sut i fodelu, er enghraifft trwy greu rhaglenni aml-gyfeiriad er mwyn rheoli drôn sy'n hedfan.

Dros amser, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn ar y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig nac uwch. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion mwy abl yn cyflawni safonau rhagorol ar draws y cwricwlwm.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyrhaeddiad y disgyblion ar y deilliant disgwylidig yn yr holl feysydd dysgu wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y deilliant uwch hefyd wedi bod rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Mae cyrhaeddiad y disgyblion dros yr un cyfnod ar gyfer y lefel ddisgwylidig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol rhwng y 50% is ar 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae cyrhaeddiad y disgyblion mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uwch o ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae cyrhaeddiad disgyblion ymhlith y 25% uchaf a'r 50% uwch ar gyfer Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae cyrhaeddiad mewn mathemateg rhwng y 50% uwch a'r 50% is.

### **Lles: Rhagorol**

Mae gan bron pob un o'r disgyblion awch a chwyrndra ardderchog tuag at ddysgu ac maent yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau allgyrsiol. Mae llais y disgybl yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac maent yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd eang sy'n bodoli er mwyn dylanwadu ar eu profiadau dyddiol. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr trwy wneud penderfyniadau am gynnwys eu gwersi wrth gyd-gynllunio gyda'r athrawon ar gychwyn gwaith thema. Mae'r cyfrifoldebau sydd ganddynt fel llysgenhadon ac aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn eu galluogi i gasglu barn a rhyngweithio'n effeithiol iawn gyda disgyblion, staff a'r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod eu syniadau'n bwysig.

Mae'r cyngor ysgol yn cydweithio'n agos â'r llywodraethwyr i werthuso a monitro cynnydd blaenoriaethau penodol o gynllun datblygu'r ysgol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd. Maent hefyd yn cynnal asesiadau risg er mwyn gwella amgylchedd yr ysgol. Mae'r gweithgarwch hwn yn rhoi bri a pharch i lais y disgyblion sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at safonau lles uchel y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r holl ddisgyblion wedi cyfrannu at lunio siarter y dosbarth ac at ddatblygu polisi ymddygiad yr ysgol. Mae effaith y mewnbwn yn arwain at safonau ymddygiad uchel ymysg bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn feddylgar ac yn dangos parch a chonsyrn tuag at eu cyfoedion ac eiddo eraill, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt. Mae'r agweddau hyn yn gryfder ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at sefydlu disgwyladau uchel ymysg y disgyblion. O ganlyniad, mae gan lawer lefel uchel o ymrwymiad ac mae'r dysgu'n ddisgybledig iawn ymysg bron pob un. Nodwedd arbennig yw eu gallu i adnabod eu trywyddion dysgu unigol er mwyn gosod meini prawf llwyddiant heriol a gwerthuso eu cynnydd. Mae hyn yn cyfrannu'n hynod effeithiol at eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i godi arian at elusennau ac achosion da. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hymwybyddiaeth o sefyllfaoedd pobl lai ffodus ac anghenus o fewn eu cymuned ac yn fyd-eang. Mae'r llysgenhadon TGCh yn derbyn cyfrifoldebau sylweddol trwy arwain sesiynau hyfforddi ar gyfer disgyblion iau yn ogystal â chynnal hyfforddiant ar gyfer staff Pencae ac ysgolion Caerdydd.



Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o'r angen i yfed dŵr a bwyta'n iach. Mae llawer yn dewis cymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon o fewn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu agweddau positif at gadw'n iach, ffitrwydd a medrau cymdeithasol.

Mae presenoldeb bron pob disgyblion yn rhagorol, sy'n gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod ardderchog o brofiadau dysgu arloesol. Mae'r ddarpariaeth fanwl hon yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ymestyn y tu hwnt i ofynion statudol. Mae hyn yn galluogi athrawon i fentro'n greadigol i gyflwyno gweithgareddau cyffrous sy'n ysbrydoli disgyblion ac yn tanio'u chwilfrydedd. Mae'r holl staff yn gweithio'n dda iawn gyda'u gilydd i gynllunio ac adolygu rhaglenni cynyddol o waith er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ar draws yr ysgol. Maent yn ystyried dysgu blaenorol yn ofalus ac yn gosod targedau heriol er mwyn bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u sefydlu'n llawn ac, o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol iawn. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei wreiddio'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol ac yn sicrhau cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n hyderus. Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh yng nghyfnod allweddol 2 yn arwain y sector ac yn sicrhau deilliannau rhagorol, yn enwedig ymysg disgyblion mwy abl a thalentog. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod gwaith TGCh y disgyblion yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Er enghraifft, darlledwyd cyflwyniadau aml gyfrwng ar fywyd y cricedwr, Robert Crofft, ar sgriniau teledu stadiwm criced Caerdydd yn ystod cyfres y Lludw.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y maent yn cyfoethogi'r dysgu trwy ddarparu profiadau bywiog a chyffrous i'r disgyblion fel sbardun i waith y dosbarth. Er enghraifft, bu'r disgyblion hyn yn astudio planhigion yn tyfu o hadau a anfonwyd atynt o orsaf ofod rhyngwladol y gofodwr Tim Peake. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu safonau gwyddoniaeth y disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol.

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglenni ymyrraeth cadarn i gefnogi anghenion disgyblion unigol yn dda. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion mwy abl a thalentog, yn enwedig mewn llythrennedd, yn llwyddo ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ac yn esgor ar safonau rhagorol.

Mae athrawon a chynorthwyr dysgu yn trefnu amrediad da iawn o weithgareddau allgyrsiol a phreswyl ar draws yr ysgol, sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth gyffredinol. Mae ystod dda o ymwelwyr arbenigol rheoliadd yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, crefyddau a thraddodiadau gwledydd eraill. Mae'r cyngor eco yn weithredol iawn yn monitro defnydd o ynni yn yr ysgol ac yn hyrwyddo ailgylchu. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o'r hyn y gallant ei wneud er mwyn diogelu'r amgylchfyd ac maent yn datblygu'n ddinasyddion byd-eang cyfrifol, gwybodus a chyfranogol.

Mae pob aelod o staff yn annog disgyblion yn effeithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Mae ethos Cymreig crefftus yn ganolog i holl waith yr ysgol ac mae gwaith arlunwyr, beirdd a cherddorion o Gymru yn britho'r waliau. Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau creadigol niferus i'r disgyblion ar draws y gymuned ac mae staff a rheini yn weithgar tu hwnt yn hyfforddi disgyblion ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd. Mae gweithgareddau fel creu cacennau caru Santes Dwynwen, astudio'r Fari Lwyd, ymweliad gan Syr John Meurig Thomas a thrafodaethau estynedig ynglŷn â chyflwyno ail sianel deledu Gymraeg yn cyfrannu'n wych at ddatblygu agwedd eithriadol yr holl ddisgyblion tuag at yr iaith Gymraeg a chelfyddyd Cymru.

## **Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cyflwyno gweithgareddau o ansawdd uchel sydd yn cael effaith nerthol ar safonau bron pob un o'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac adnabyddiaeth dda o anghenion unigolion. Mae'r athrawon, gan amlaf, yn cynllunio gwaith heriol ac yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn effeithiol. Mae'r holl athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, yn enwedig wrth gyflwyno themâu hanesyddol a gwyddonol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o arddulliau addysgu yn effeithiol, gan sefydlu amcanion dysgu clir a'u rhannu gyda disgyblion i sicrhau pwrpas cryf i'r dysgu. Maent yn cydweithio'n dda gyda chynorthwyrwyr dysgu ac yn gwybod pryd i ymyrryd er mwyn rhoi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd priodol o'r ardaloedd dysgu allanol. Maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy weithgareddau ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu a chorfforol. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored bob tro'n atgyfnerthu gwaith ffocws sy'n digwydd yn y dosbarth er mwyn datblygu medrau disgyblion yn ddigon cynyddol. Mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh, er enghraifft trwy ddefnydd pwrpasol o godau QR yn y dosbarth ac ar dir yr ysgol.

Mae'r addysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn gadarn ac yn effeithiol iawn ar frig yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn gwneud defnydd buddiol o lais y disgybl er mwyn cynnwys eu syniadau mewn gwersi cyffrous a pherthnasol. O ganlyniad, maent yn ysgogi safonau uchel ac yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ymdeimlad o barch rhwng oedolion a'r disgyblion yn creu awyrgylch gwaith effeithiol lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad, mae bron pob un yn cymryd rhan weithredol yn y wers ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r holl staff yn modelu iaith dda ac yn cywiro gwallau llafar disgyblion yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio'r cynllunio ac i drefnu ymyrraeth yn ôl yr angen. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson

i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae medrau hunanwella llawer o'r disgyblion yn gadarn ac yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae pob athro yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn nodi cryfderau yn ogystal â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella cynnwys y gwaith o dan sylw. Er hyn, nid yw'r adborth ysgrifenedig ychydig o athrawon bob amser yn dangos i ddisgyblion beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn datblygu eu medrau ymhellach. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth glir iddynt am gynnydd eu plant ac yn bodloni gofynion statudol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawus sy'n hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol trwy arweiniad medrus ac ystod o fentrau gwerthfawr. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol llawer o ddisgyblion yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf yn cydweithio â'i gilydd yn dda gan ddangos parch, gofal a phryder am eraill. Mae gan yr ysgol ffocws clir ar les emosiynol ac ystyriol y disgyblion ac mae'r ardal groeso gymunedol yn cynnig lloches arbennig i ddisgyblion bregus. Mae'r ysgol yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy ystod addas o weithgareddau'r cwricwlwm a gwasanaethau buddiol.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddarparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fod yn gorfforol egniol ac i ddewis diet iach. Er enghraifft, gwahoddir chwaraewyr a hyfforddwyr timau cenedlaethol i gydweithio gyda'r disgyblion. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hŷn gymryd rhan mewn clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae staff a chyn-ddisgyblion yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymuno â chlybiau garddio, dawns, pêl-droed, tenis bwrdd, ffitrwydd, jiwdo a chystadlaethau chwaraeon yr Urdd.

Mae gan yr ysgol bolisi presenoldeb dylanwadol sy'n amlinellu disgwyliadau uchel yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau ysgol ar gyfer adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae staff yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau arbenigol i ddarparu cefnogaeth nerthol. Mae grwpiau ymyrraeth yn cael effaith dda iawn ar fedrau llythrennedd llawer o ddisgyblion ac mae'r gefnogaeth ar gyfer rhifedd yn datblygu'n briodol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer llunio cynlluniau addysg unigol. Mae'r cydlynnydd yn gweithio'n agos gyda'r disgyblion, rhieni, staff ac asiantaethau a gwasanaethau arbenigol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chyflawniadau llawer o ddisgyblion trwy eu galluogi i oresgyn rhwystrau dysgu penodol yn llwyddiannus.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r holl randdeiliaid wedi ymrwymo i ddatblygu ymdeimlad pentrefol a chynhwysol yn yr ysgol. Mae athrawon yn rhoi pwyslais uchel ar gydraddoldeb a pharch ym mhob agwedd o'u gwaith. Maent yn sicrhau bod cyfle cyfartal yn flaenoriaethau amlwg er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigwyr allanol, yn ogystal â chydweithio â disgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr, er mwyn datblygu ymagweddau iach tuag at amrywiaeth ac i oresgyn trais a bwlio.

Mae gan yr ysgol asesiadau risg cynhwysfawr. Maent yn gwneud defnydd da iawn o lais y disgybl yn y maes hwn trwy ganiatáu iddynt gerdded o amgylch y safle i baratoi adroddiadau i'r llywodraethwyr er mwyn nodi'r hyn a welant fel risgiau posibl.

Mae'r ysgol yn dangos parch uchel tuag at waith y disgyblion trwy ddatlu eu llwyddiannau mewn arddangosfeydd deniadol. Mae hyn yn creu awyrgylch dysgu symbylus a thrwsiadus sy'n cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r modd y mae'r ysgol yn arddangos darluniau'r disgyblion ochr yn ochr â gwaith gwreiddiol artistiaid o Gymru. Mae hyn yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith creadigol ac yn eu hamgylchedd dysgu.

Ceir ystod addas o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu ardaloedd allanol yr ysgol. Mae'r pagoda, y wal ddringo a'r ardal goedwig yn cyfrannu'n dda iawn at ddatblygu awydd y disgyblion i anturio yn yr awyr agored. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o ddeunydd TGCh ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o lechi er mwyn cefnogi eu haddysg.

Mae safon glanweithdra yn yr ysgol ac ar y safle yn dda ac mae'r adeilad yn ddiogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Rhagorol</b>
--	-----------------

### **Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cael ei rheoli gan bennaeth profiadol ac effeithiol sy'n gweithredu'n gyson uwchlaw'r disgwyladau er mwyn darparu cyfeiriad strategol eithriadol i'r ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir iawn sy'n seiliedig ar ddarparu profiadau addysgol cofiadwy i'r disgyblion, gan rannu hyn yn llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddo ffocws cadarn a dealltwriaeth ardderchog o gynllunio systematig er mwyn codi a chynnal safonau dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli ac arwain grymus ac uwch dîm rheoli cryf iawn. Maent yn cydweithio'n ddiflino er mwyn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r targedau heriol ac uchelgeisiol sy'n cael eu gosod iddyn nhw, y staff a'r disgyblion. Mae cyfrifoldebau'r arweinwyr wedi'u diffinio'n glir iawn ac mae ganddynt dealltwriaeth ragorol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r dirprwy bennaeth ymroddedig ac egniol yn ysgwyddo dyletswyddau arweiniol yn grefftus trwy sicrhau bod arweinwyr canol yn deall eu rôl, yn atebol ac yn bodloni eu targedau. Mae timau o athrawon yn gyfrifol am ddatblygu agweddau penodol o fywyd yr ysgol a'r cwricwlwm, er enghraifft y ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwych iddynt ddatblygu eu gallu i fod yn arweinwyr effeithiol yn y dyfodol. O ganlyniad, mae safonau mewn llythrennedd, TGCh a gwyddoniaeth wedi codi ac mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y bechgyn a'r merched wedi lleihau.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Maent yn wybodus tu hwnt am berfformiad yr ysgol, ac yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata a thystiolaeth uniongyrchol er mwyn cyfrannu'n sylweddol at lunio cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn ddadansoddol iawn ac mae'r cadeirydd yn defnyddio'i arbenigedd a chryfderau unigolion yn effeithiol er mwyn cefnogi a herio'r pennaeth a'r staff yn

drwyadl pan fo'n briodol gwneud hynny. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn arsylwi gwersi, trafod â disgyblion a chraffu ar lyfrau. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ardderchog o gryfderau'r ysgol, y meysydd sydd angen newid, ynghyd â chyfleoedd buddiol i fonitro a gwerthuso gwelliant.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw manwl i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae arweinwyr wedi cyflwyno rhaglenni arloesol ar gyfer datblygu medrau ymchwilio ac ymholi disgyblion mewn gwersi gwyddoniaeth. Maent hefyd yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu cymhwysedd digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd eang ac unigryw i ddisgyblion mwy abl ddysgu Mandarin ac i gymryd rhan mewn gweithdai rhifedd ymestynnol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer rheoli perfformiad sy'n darparu cyfleoedd cadarn i alluogi athrawon a chynorthwyr i herio'u perfformiad er mwyn datblygu'n broffesiynol.

### **Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu diwylliant trwyadl a blaengar iawn er mwyn barnu gwaith yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r gweithgarwch hwn yn eithriadol ac yn seiliedig ar ddadansoddiad gonest a thryloyw o safonau dysgu ac addysgu dros gyfnod. Mae pob aelod o staff, disgyblion, llywodraethwyr, a'r rhieni yn rhan greiddiol o'r broses o gasglu tystiolaeth a llunio'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn weithgar wrth gasglu barnau'r rhanddeiliaid hyn ac mae'r arweinwyr yn gweithredu'n gyflym ar ganfyddiadau pan fo angen gwneud hynny.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn dadansoddi deilliannau monitro yn ofalus ac yn ystyried y rhain mewn perthynas â thueddiadau cyrhaeddiad er mwyn cynllunio'n drylwyr ar gyfer gwelliant. Mae dyfnder a thrylwyredd strategol y gwaith yn gryfder yn yr ysgol. Mae blaenoriaethu ar gyfer gwelliant yn tarddu'n uniongyrchol o adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol iawn sy'n nodi'n glir pwy sydd yn gyfrifol am arwain agweddau penodol. Mae gan bob aelod o staff berchnogaeth o ran cynllunio ar gyfer gwella, ac maent yn gweithredu'n gydwybodol. Mae terfynau amser, meini prawf llwyddiant, targedau heriol, camau gweithredu clir ac ystyriaethau cyllidol yn sicrhau bod arweinwyr yn medru monitro cynnydd yn effeithiol iawn. Maent yn paratoi adroddiadau cynhwysfawr yn dymhorol ac yn newid trywyddau gwelliant yn ôl y gofyn. Mae'r trefniadau hyn eisoes wedi arwain at welliant parhaus mewn safonau llythrennedd, gwyddoniaeth a lles disgyblion yn ogystal â chynllunio darpariaeth wych ar gyfer herio disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae gallu'r ysgol i gofleidio datblygiadau newydd yn gryfder. Er enghraifft, mae brwdfrydedd arweinwyr wrth iddynt gychwyn ystyried egwyddorion yn uchel. Mae gan gyfarfodydd athrawon ffocws cadarn eisoes ar gynnwys y pedwar diben allweddol yn eu haddysgu.

Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan allweddol yn y broses hunanarfarnu trwy ymweld yn rheolaidd â'r ysgol. Mae eu defnydd o ddata perfformiad i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn eithriadol. Maent yn gyfranwyr deallus iawn mewn trafodaethau yn ymwneud â chyrhaeddiad a pherfformiad yr ysgol ac yn rhan allweddol o gynllunio ar gyfer gwelliant a monitro'r cynllun datblygu.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod arbennig o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ansawdd yr addysgu. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a rhieni yn eithriadol ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at ddeilliannau uchel a lles rhan fwyaf y disgyblion. Mae gan y rhieni barch gwirioneddol tuag at y staff ac maent yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu gweithdai addysgiadol yn dymhorol iddynt am agweddau yn ymwneud â llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ddulliau dysgu ac yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn fwy effeithiol.

Mae llawer o rieni a pherthnasau'r disgyblion a staff yn cyfrannu'n ffurfiol at gryfhau agweddau o'r cwricwlwm, er enghraifft drwy gynnal gweithgareddau gwyddonol a chwaraeon, sesiynau rhifedd a medrau meddwl a gweithdai TGCh. Yn ogystal, daw rhieni i'r ysgol i gynorthwyo gydag agweddau o weithgareddau cyfoethogi llythrennedd a rhifedd ac i ddatblygu'r ardal allanol. Nodwedd arbennig yw'r bartneriaeth deuluol lwyddiannus sy'n bodoli trwy 'Wythnos Tad a Theidiau' sy'n cyfrannu'n sylweddol at hybu diddordeb mewn llythrennedd ymysg bechgyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y bechgyn a'r merched, yn ogystal â chodi brwdfrydedd y bechgyn tuag at ddarllen ac ysgrifennu. Mae'r ysgol hefyd yn elwa'n sylweddol wrth dderbyn rhoddion ariannol gan gymdeithas rhieni ac athrawon, sydd wedi sicrhau cyflenwad sylweddol o adnoddau TGCh.

Mae ymweliadau disgyblion â'r gymuned yn ehangu eu profiadau yn sylweddol, er enghraifft drwy blannu planhigion mewn rhandir ar dir plasty yn Llandaf. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Nodwedd arbennig o gydweithio yn y gymuned yw'r bartneriaeth gref gyda stadiwm criced y ddinas sydd wedi arwain at ddarpariaeth unigryw i hybu'r disgyblion i ysgrifennu am gemau ac agweddau sy'n gysylltiedig â chriced.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant buddiol o weithio gydag ysgolion eraill i godi safonau disgyblion ac ehangu eu profiadau. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflwyno canllawiau cynhwysfawr ar fesur cyflawniad disgyblion mewn gwersi gwyddoniaeth. Mae'r disgyblion hefyd wedi datblygu eu dealltwriaeth o fywyd yn y Wladfa trwy bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Amgueddfa Genedlaethol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol a threfniadau pontio llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo yno heb drafferth. Mae perthynas dda iawn yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r cylchoedd meithrin niferus sy'n ei bwydo. Mae'r cydweithio parhaus hwn yn werthfawr i sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ac, o ganlyniad, mae ganddynt dealltwriaeth gadarn o lefelau a deilliannau disgwyliedig a chyraeddiadau'r disgyblion.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Maent yn cydweithio'n gydwybodol yn y dosbarthiadau ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth gadarn sy'n arwain at safonau da ar draws yr ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi eu strwythuro'n dda er mwyn sicrhau bod yr athrawon yn manteisio'n llawn ar y cyfnodau hyn. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn llwyddiannus at hyfforddi staff yn unol â'u anghenion unigol, yn ogystal â diwallu blaenoriaethau gwelliant yr ysgol. Er enghraifft, mae cyrsiau mathemateg wedi arwain at wella gallu'r athrawon i ddatblygu medrau rhesymu'r disgyblion yn enwedig ar y lefelau uwch.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn er mwyn adnabod arfer dda o fewn yr ysgol ac maent yn trefnu cyfleoedd priodol i'w rannu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff ymwybyddiaeth dda o strategaethau addysgu cyfredol sy'n cyfrannu'n effeithiol at ehangu'r ddarpariaeth ac ymestyn safonau'r disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn gwerthuso effeithiolrwydd datblygiadau newydd yn ofalus ac maent yn rhannu eu syniadau gydag ysgolion eraill yn rheolaidd, er enghraifft trwy greu pecynnau defnyddiol ar gyfer datblygu strategaethau i werthuso cynnydd disgyblion o ran eu medrau gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i gyfoethogi'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r cyfraniadau ariannol gan rieni i sicrhau ystod eang o adnoddau ar gyfer TGCh er mwyn ymestyn profiadau dysgu a chyraeddiadau'r disgyblion yn dda.

Mae gwariant yr ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun gwella ac mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Defnyddir y grant amddifadedd yn effeithiol ar gyfer bodloni anghenion llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6812177 - YSGOL PENCAE

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	208
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	2.5
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	30	30	30	30
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	100.0	90.0	90.0	100.0
Chwarter meincnod	1	3	3	1
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	30	30	30
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	90.0	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	3	3	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	33.3	40.0	53.3
Chwarter meincnod	2	3	3	1
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	30	30	30
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	90.0	93.3	100.0
Chwarter meincnod	1	3	3	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	40.0	43.3	46.7	60.0
Chwarter meincnod	2	2	2	1
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	30	30	30
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	96.7	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	3	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	53.3	50.0	56.7	90.0
Chwarter meincnod	3	3	4	1

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer diffreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd diffreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd diffreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd diffreintiedig.



**6812177 - YSGOL PENCAE**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 208  
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 2.5  
 Grŵp PYD 1 (PYD<=8%)

**Cyfnod allweddol 2**

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	30	26	28	27
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	90.0	88.5	96.4	92.6
Chwartzel meincnod	3	3	2	3
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	26	28	27
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	93.3	92.3	96.4	96.3
Chwartzel meincnod	3	3	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	60.0	57.7	50.0	63.0
Chwartzel meincnod	1	1	2	1
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	26	28	27
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	90.0	84.6	89.3	92.6
Chwartzel meincnod	3	4	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	36.7	57.7	46.4	59.3
Chwartzel meincnod	3	1	2	1
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	26	28	27
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	90.0	88.5	96.4	92.6
Chwartzel meincnod	3	4	3	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	46.7	53.8	46.4	51.9
Chwartzel meincnod	2	2	3	3
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	26	28	27
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	96.4	100.0
Chwartzel meincnod	1	1	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	46.7	57.7	53.6	74.1
Chwartzel meincnod	2	2	2	1

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartzel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartzel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartzel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	105	105 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	104	100 96%	4 4%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	105	102 97%	3 3%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	105	102 97%	3 3%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	105	100 95%	5 5%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	104	102 98%	2 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	104	104 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	105	101 96%	4 4%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	105	99 94%	6 6%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	105	97 92%	8 8%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	104	87 84%	17 16%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	105	95 90%	10 10%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	101	63 62%	34 34%	2 2%	0 0%	2	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	100	73 73%	24 24%	1 1%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	101	77 76%	24 24%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	101	49 49%	42 42%	3 3%	0 0%	7	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	101	51 50%	44 44%	4 4%	0 0%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	101	48 48%	40 40%	5 5%	0 0%	8	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	101	57 56%	39 39%	1 1%	0 0%	4	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	98	34 35%	39 40%	10 10%	3 3%	12	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	101	54 53%	38 38%	5 5%	0 0%	4	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	101	48 48%	38 38%	7 7%	0 0%	8	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	38%	2%	0%		
My child is safe at school.	100	65 65%	34 34%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	98	52 53%	31 32%	1 1%	1 1%	13	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	101	31 31%	50 50%	17 17%	0 0%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	9%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	100	67 67%	26 26%	4 4%	2 2%	1	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	101	46 46%	37 37%	10 10%	1 1%	7	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	101	55 54%	37 37%	2 2%	1 1%	6	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	97	31 32%	29 30%	5 5%	0 0%	32	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	100	53 53%	38 38%	7 7%	1 1%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	98	62 63%	31 32%	2 2%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	3%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Dyfrig Ellis	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Cerian Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Richard Thomas	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.